# Trosolwg Thema
# Blwyddyn 3 a 4
# Tymor yr Haf, 2026

Sut gallwn greu a chynnal pwll sy'n denu creaduriaid dŵr?

Byddwn yn datblygu'r ardal allanol drwy ganolbwyntio ar wella pwll yr ysgol, gan gynnig cyfleoedd i ddisgyblion arsylwi ar newidiadau a bywyd gwyllt megis brogaod, pryfed a phlanhigion dyfrol. Mae hyn yn meithrin chwilfrydedd ac ymchwiliad gwyddonol, gan hefyd gyfrannu at fioamrywiaeth leol drwy greu cynefin i rywogaethau amrywiol.



# Thematic Overview
# Year 3 & 4
# Summer Term, 2026

How can we create and maintain a pond that attracts water creatures?

We will develop the outdoor area by focusing on improving the school pond, giving pupils opportunities to observe changes and wildlife such as frogs, insects, and aquatic plants. This nurtures curiosity and scientific inquiry while also supporting local biodiversity by creating a habitat for a range of species.

SLIDESMANIA.COM

# Bydd profiadau y dysgu yn canolbwyntio ar ddatblygu'r Pedwar Diben drwy ein cymeriadau…



Dysgwyr uchelgeisiol, galluog



Dinasyddion egwyddorol, gwybodus



Unigolion iach, hyderus



Cyfranwyr mentrus, creadigol

| Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu | Mathemateg a Rhifedd | Gwyddoniaeth a Thechnoleg |
|---|---|---|
| Bydd y plant yn datblygu eu sgiliau iaith drwy archwilio'r straeon Pie Corbett – Pedr a'r Blaidd. Byddant yn canolbwyntio ar ddefnyddio iaith ddisgrifiadol ac yn dysgu am ansoddeiriau i gyfoethogi eu brawddegau. Byddwn hefyd yn edrych ar elfennau cerddorol y stori, gan gysylltu sain ac iaith. Yn ogystal â hyn, bydd y plant yn creu ffeil ffeithiau am frogaod, gan ddatblygu eu gallu i gyflwyno gwybodaeth syml mewn ffordd glir a threfnus. | Bydd y plant yn defnyddio cyfesurynnau i adnabod pwyntiau penodol, yn astudio map Arolwg Ordnans i ddeall graddfa a nodweddion lleol, yn trefnu gwybodaeth gan ddefnyddio *diagram cangen*, ac yn gwneud gwaith cwmpawd i ddatblygu sgiliau cyfeiriadu a gofodol cywir. | Bydd y disgyblion yn dosbarthu anifeiliaid pwll ac yn adnabod eu nodweddion gwahanol, gan gynnwys sut mae anifeiliaid yn addasu i'w hamgylchedd. Byddant yn dysgu am fertebratau ac yn archwilio'r gwahanol grwpiau o anifeiliaid. Bydd y disgyblion hefyd yn ymchwilio i frogaod, gan ddeall eu cylchred bywyd a sut maent yn addasu i fyw ar y tir ac yn y dŵr. Yn ogystal, byddant yn edrych ar sut gall newid amodau cynefin effeithio ar dyfiant a goroesiad pethau byw. |
| **Y Dyniaethau** | **Celfyddydau Mynegiannol** | **Iechyd a Lles** |
| Bydd y disgyblion yn astudio map ordnans o'r ardal leol, gan ddefnyddio allwedd map i adnabod a deall gwahanol nodweddion y tir. Byddant yn archwilio sut mae'r ardal wedi'i chynrychioli ar fap ac yn dysgu am symbolau map. Bydd y disgyblion hefyd yn defnyddio'r pedwar pwynt cwmpawd i ddisgrifio lleoliad nodweddion daearyddol ac i esbonio ble maent wedi'u lleoli mewn perthynas â'i gilydd yn yr ardal leol. | Bydd y plant yn dysgu drwy greu ffilm fer yn seiliedig ar eu hymweliad â Phenclacwydd, gan gofnodi'r hyn a welsant a'r hyn a ddysgon nhw. Byddan nhw hefyd yn cyfansoddi dilyniant cerddorol gan ddefnyddio amrywiaeth o offerynnau, ac yn cynhyrchu gweithiau celf creadigol sy'n adlewyrchu eu profiadau yn y pwll natur a'r amgylchedd o'i gwmpas. | Bydd y disgyblion yn dysgu am berthnasoedd gwahanol yn eu bywydau, gan gynnwys teulu, ffrindiau a phobl yn yr ysgol. Byddant yn trafod sut mae perthnasoedd iach yn edrych a sut i ddangos parch, empathi a chyfathrebu da. Bydd y disgyblion hefyd yn archwilio newidiadau y gall pobl eu profi dros amser, gan gynnwys newidiadau emosiynol a chymdeithasol, a sut i ymdopi â'r rhain mewn ffordd gadarnhaol. |

SLIDESMANIA.COM

# The learning experiences will focus on developing the Four Purposes through our characters...



Ambitious, capable learners



Ethical, informed citizens



Healthy, confident individuals



Enterprising, creative contributors

| Languages, Literacy and Communication | Mathematics and Numeracy | Science and Technology |
|---|---|---|
| The children will develop their language skills by exploring the Pie Corbett story 'Peter and the Wolf'. They will focus on using descriptive language and learning how to use adjectives to enrich their writing. The children will also explore the musical elements of the story, making links between sound and language. In addition, they will create a fact file about frogs, helping them to develop their skills in researching and presenting information clearly. | The children will be using coordinates to identify specific points, studying an Ordnance Survey map to understand scale and local features, organising information using a branch diagram, and completing compass work to develop accurate directional and spatial skills. | The pupils will sort pond animals and identify their different characteristics, including how animals adapt to their environment. They will learn about vertebrates and explore the different groups of animals. The pupils will also investigate frogs, understanding their life cycle and how they adapt to living on land and in water. In addition, they will look at how changes in habitat conditions can affect the growth and survival of living things. |

| Humanities | Expressive Arts | Health and Wellbeing |
|---|---|---|
| The pupils will study an Ordnance Survey map of the local area, using the map key to identify and understand different features of the landscape. They will explore how the area is represented on a map and learn about map symbols. The pupils will also use the four points of the compass to describe the location of geographical features and explain where they are situated in relation to each other in the local area. | The children will learn by creating a short film based on their visit to Penclacwydd, capturing what they saw and discovered. They will also compose a musical sequence using a range of instruments, and produce creative artwork inspired by their experiences at the nature reserve and the pond environment. | The pupils will learn about different relationships in their lives, including family, friends, and people in school. They will discuss what healthy relationships look like and how to show respect, empathy, and good communication. The pupils will also explore changes that people may experience over time, including emotional and social changes, and how to cope with these in a positive way. |

SLIDESMANIA.COM